**RHYBUDD o Benderfyniadau cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithiol drwy Zoom ar ddydd Iau, 23 Mai, 2024**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Mercher 29 Mai 2024. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Mercher 5 Mehefin 2024. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Iau 6 Mehefin 2024.

**Presennol**: Y Cynghorwyr Llinos Medi (Cadeirydd), Dafydd Rhys Thomas, Carwyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Neville Evans a Dafydd Roberts

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr  Aled Morris Jones, Derek Owen

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd Robin Williams

(10:00 y. b. tan 10:35 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2024 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Mehefin 2024 i Ionawr 2025 fel y'i cyflwynwyd.** |

| | |
|---|---|
| | |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaen gynllunio.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Trefniadaeth Ysgolion - Adroddiad Gwrthwynebu a dod i Benderfyniad Terfynol am Ysgol Carreglefn**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn o 31 Awst 2024.**<br>• **Awdurdodi Swyddogion i gyhoeddi rhybudd o'r penderfyniad terfynol ar ffurf llythyr penderfyniad yn unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.**<br>• **Ymestyn dalgylch Ysgol Llanfechell i ymgorffori dalgylch presennol Ysgol Carreglefn.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Yn unol â'r Côd Trefnidaeth Ysgolion 2018, ymateb i'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd a dod i benderfyniad terfynol ynghylch y cynnig i gau Ysgol Carreglefn a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llanfechell.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Datganiad o ddiddordeb personol yn unig gan y Cynghorydd Llinos Medi** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Cytuno ar y Trefniadau ar gyfer Sefydlu Porthladd Rhydd Ynys Môn**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i wneud y Cyngor yn Aelod Sefydlol o Borthladd Rhydd Ynys Môn Cyf. (y Cwmni Porthladd Rhydd) ar y cyd â rhanddeiliaid lleol allweddol.**<br>• **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i gwblhau ac arwyddo Erthyglau Porthladd Rhydd Ynys Môn Cyf. (y Cwmni Porthladd Rhydd) a'r Cytundeb Aelodau.**<br>• **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i gwblhau ac arwyddo Cytundebau Tirfeddiannwr rhwng CSYM, Porthladd Rhydd Ynys Môn Cyf. (y Cwmni Porthladd Rhydd) a phob perchennog tir a/neu feddiannwr perthnasol yn ôl y gofyn.**<br>• **Cymeradwyo cyllideb ddrafft arfaethedig Porthladd Rhydd Ynys Môn a rôl CSYM fel Corff Atebol.**<br>• **Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad â'r** |

| | |
|---|---|
| | **Aelod Portffolio Cyllid i adolygu a chymeradwyo'r gyllideb derfynol pan gaiff ei chyflwyno gan Gwmni Porthladd Rhydd Ynys Môn. Disgwylir gwariant (gan gynnwys cyllideb wrth gefn) yn unol â'r tabl ar dudalen 7 yr adroddiad.**<br>• **Nodi y bydd unrhyw oblygiadau fydd yn effeithio ar gyllideb y Cyngor yn cael eu cynnwys i'w cymeradwyo yng Nghyllideb y Cyngor Llawn ar gyfer 2025/26.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn symud ymlaen gyda threfniadau gweithredol a llywodraethiant Porthladd Rhydd Ynys Môn.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |